Yr Ombwdsmon Cyfreithiol

# Yma i helpu

## Beth i'w wneud os oes gennych gŵyn am eich cyfreithiwr

### Rydym yma i helpu gyda chwynion cyfreithiol

**Beth ydym yn ei wneud?**

Rydym yn helpu i ddatrys cwynion sydd gennych am gyfreithwyr sydd wedi gweithio drosoch ond gallwn wneud hyn dim ond ar ôl ichi wneud cŵyn iddynt hwy.

**Mae ein gwasanaeth am ddim**

Rydym yn annibynnol ac nid ydym yn cymryd ochr rhywun. Nid ydym yn rhan o'r llysoedd ac nid ydym yn gweithio dros gyfreithwyr. Byddwn yn ystyried ffeithiau'ch cŵyn er mwyn cyrraedd canlyniad teg.

Mae gennym y pwerau i wneud pethau'n well os ydym yn ystyried bod cyfreithwyr wedi gwneud rhywbeth o chwith. Ond mae'n rhaid ichi gwyno iddynt hwy yn gyntaf.

### Gyda beth allwn ni helpu?

Mae llawer o gwynion gwahanol gallwn eu hystyried.

Er enghraifft, os ydych yn anfodlon ar sut mae'ch cyfreithiwr wedi:

- Delio â materion parôl drosoch
- Gweithio ar hawliad anaf personol neu fater esgeuluster clinigol
- Trefnu gwrandawiad Enillion Troseddau
- Eich cynrychioli yn y llys
- Delio gydag apêl yn erbyn dedfryd neu gollfarn
- Eich helpu gyda throsglwyddiad neu fater ail-gategoreiddio
- Delio gyda materion megis ewyllys, neu faterion ynghylch teulu neu blant



LEGAL OMBUDSMAN

Ni allwn ystyried y pethau mae llys wedi'u penderfynu, dim ond y pethau mae'ch cyfreithiwr wedi'u gwneud. Os na allwn eich helpu efallai y byddwn yn gallu dweud wrthych pwy all eich helpu.

**Ni allwn eich rhyddhau o'r carchar na threfnu i'ch dedfryd gael ei gwrthdroi neu leihau.**

## Pwy all ddefnyddio'r Ombwdsmon Cyfreithiol?

Mae ein gwasanaeth ar agor i bron pawb. Fel carcharor (wedi'ch collfarnu, ar remánd, carcharorion sifil, troseddwyr ifanc, a phobl a gedwir mewn carchariad mewnfudo) mae gennych hawl i ddefnyddio'n gwasanaeth.

## Pwy ddylai gysylltu â ni?

Y peth gorau yw cysylltu â ni eich hunan. Ond rydym yn sylweddoli nad yw hyn yn hawdd ar brydiau. Gall rhywun arall ffonio ar eich rhan, megis aelod o'r teulu neu ffrind, ond bydd angen inni wirio eich bod wedi cytuno y gallant siarad drosoch.

Os ydych yn talu rhywun arall i siarad drosoch, bydd rhaid ichi eu talu'ch hunan.

## Sut i wneud cŵyn

### Cam 1. Rhowch wybod i'ch cyfreithiwr

Os oes problem neu os nad ydych yn fodlon ar unrhywbeth, mae angen ichi roi gwybod i'ch cyfreithiwr yn gyntaf fel eu bod yn cael cyfle i'w ddatrys.

Dywedwch wrthynt eich bod eisiau gwneud cŵyn cyn gynted â phosibl. Peidiwch ag oedi'n ormodol.

Os ydych yn profi unrhyw broblemau wrth gysylltu â'ch cyfreithiwr ac na wyddoch beth i'w wneud nesaf cysylltwch â ni.

**Cam 2. Rhowch ddigon o amser i'ch cyfreithiwr i ddatrys pethau.**

Rhowch wyth wythnos i'ch cyfreithiwr i ddatrys pethau.

Os ydych yn dal yn anfodlon wedi wyth wythnos rhowch wybod inni cyn gynted â phosibl. Mae hyn oherwydd bod terfynau amser yn bodoli ar gyfer gwneud cŵyn .

**Cam 3. Cwynwch wrthym ni**

Dewch atom cyn gynted ag y gallwch wedi ceisio datrys pethau gyda'ch cyfreithiwr.

Os nad ydych yn fodlon ar eu hymateb derfynol, mae gennych chwe mis yn unig i gwyno wrthym.

Bydd o gymorth os gallwch ddweud wrthym:

- Enw a chyfeiriad eich cyfreithiwr
- Y dyddiad ichi ddweud wrthynt gyntaf bod gennych gŵyn
- Y dyddiad pan wnaethoch sylwi gyntaf ar y broblem rydych yn cwyno amdani
- Beth maent wedi ei ddweud wrthych amdani

**Peidiwch ag anfon unrhyw waith papur gwreiddiol atom gan fod pob dogfen yn cael ei dinistrio ar ôl inni ei derbyn.**

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Rydym yn datrys y mwyafrif o'r cwynion rydym yn eu derbyn yn gyflym trwy gael pawb i gytuno ar yr hyn sy'n deg. Gallwn ystyried problem yn fanylach os oes angen ond mae hyn yn cymryd mwy o amser.

Os ydym yn ystyried nad yw eich cyfreithwyr wedi bod yn ddigon da gallwn ofyn iddynt:

- Ymddiheurio ichi
- Rhoi gwybodaeth sydd arnoch ei angen neu ddogfennau rydych yn berchen arnynt
- Gwneud rhagor o waith drosoch
- Rhoi rhywfaint neu i gyd o'ch arian yn ôl, os ydych wedi'u talu'ch hunan

- Rhoi arian ichi os ydych ar eich colled neu os ydych wedi'ch trin yn wael. Gallai hyn fod hyd at £50,000 ond fel arfer mae'n £250 neu'n llai.

## Sut i gysylltu â ni

**Ysgrifennwch atom yn:**

Yr Ombwdsmon Cyfreithiol

Blwch post 6167

Slough, SL1 0EH

**Sylwer nad yw Rheol 39 yn ein cwmpasu felly nodwch Fynediad Cyfrinachol ar eich gohebiaeth**

**Ffoniwch ni ar**

0300 555 0333

8.30am – 5.30pm

**Nid yw galwadau am ddim – bydd rhaid ichi dalu amdanynt. Gallwch ofyn i'r rhif hwn gael ei roi ar eich PIN.**

**Ein rhif Minicom yw:**

0300 555 1777

8.30am – 5.30pm

**Os yw eich carchar yn defnyddio'r gwasanaeth e-bostio carcharor efallai byddwn yn dewis cysylltu â chi gyda'r dull hwn.**

## Os oes arnoch angen yr wybodaeth hon mewn iaith arall, mewn print bras, Braille neu ar CD sain, cysylltwch â ni.